



Prosiect Manteisio ar Fand  
Eang Cyflym lawn i Fusnesau

# **Adroddiad ar Effaith Economaidd Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2018 – Crynodeb**



UNDEB EwROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**

# Mae manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan seilwaith band eang a thechnolegau digidol yn arwain at y potensial i gryfhau perfformiad economaidd rhanbarthol Cymru.



**Mae'r Adroddiad ar Effaith Economaidd Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2018 yn darparu tystiolaeth o'r newid digidol sy'n digwydd yn economi Cymru. Mae'n dangos sut mae mabwysiadu a defnyddio technolegau digidol yn barhaus yn arwain at fwy o aeddfedrwydd digidol i BBaChau, gyda sgil-ffeithiau cadarnhaol i gynhyrchiant rhanbarthol yng Nghymru. Mae hyn yn bwysig i Gymru er mwyn pontio'r bwlch ffyniant rhanbarthol gyda'r DU.**



Mae'r Adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau o astudiaethau achos o BBaChau yng Nghymru a'r ffordd maen nhw wedi mabwysiadu ac wedi defnyddio technolegau digidol dros amser, dadansoddi cynhyrchiant BBaCh, a chyfrifo effeithiau economaidd sy'n deillio o fabwysiadu a defnyddio band eang yng Nghymru. Mae'r cyfrifiadau hyn yn defnyddio canlyniadau Arolwg Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2018.

Mae tystiolaeth astudiaeth achos yn amlygu sut mae BBaChau yng Nghymru yn parhau i fabwysiadu technoleg ddigidol megis cyfryngau cymdeithasol, cyfrifiadura cwmwl a fideo-gynadleda ar draws nifer o brosesau busnesau. Maen nhw hefyd yn cyfeirio at hyder cynyddol BBaChau wrth ddefnyddio technoleg ddigidol, a'i rôl wrth alluogi effeithlonrwydd, gwelliannau yn y rhyngwyneb

cwsmeriaid ac arloesedd. Mae'r canlyniadau hyn yn amlygu prif ffrydio mabwysiadu a defnyddio technoleg ddigidol ar draws BBaChau yng Nghymru.

Mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos bod nifer gynyddol o BBaChau yn adrodd am ganlyniadau cadarnhaol o ran trosiant, elw, cyflogaeth ac arloesedd yn sgil mabwysiadu a defnyddio band eang cyflym iawn.

Mae'r Adroddiad yn mynd ymlaen i ddarparu tystiolaeth o effaith gadarnhaol technolegau digidol a'u heffaith bosibl ar gynhyrchiant. Mae'n dangos bod 39.6% o'r BBaChau a ymatebodd i'r Arolwg wedi cynyddu eu gwerthiannau o ganlyniad i ddefnyddio band eang safonol neu gyflym, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt (93%) wedi nodi bod hyn yn effaith barhaus dros amser. Nodwyd effeithiau cadarnhaol hefyd mewn perthynas â chyflogaeth, gyda 25% o BBaChau yn nodi effaith gadarnhaol o ddefnyddio band eang.

Mae ei ganfyddiadau'n dangos bod mwy na hanner y BBaChau, a oedd yn gallu amcangyfrif y cynnydd canrannol mewn gwerthiannau oherwydd defnydd band eang cyflym iawn, wedi nodi cynnydd o hyd at 10%. Cynrychiolodd 23.5% pellach gynyddiad gwerthu rhwng 11% a 30%. Yn yr un modd, o'r BBaChau hynny a oedd wedi mabwysiadu band eang cyflym iawn ac a ddarparodd amcangyfrif o'r newid mewn cyflogaeth o ganlyniad i fabwysiadu, nododd tua 27.5% effaith gynyddol. Wrth wneud yr asesiadau hyn, nododd nifer o fusnesau ei bod yn anodd darparu canrannau manwl gywir.

Dywedodd

**39.6%**


**o'r busnesau a ymatebodd fod trosiant wedi cynyddu o ganlyniad i fabwysiadu band eang**

Dywedodd

**27.5%**

**fod cyflogaeth wedi cynyddu o ganlyniad i'w fabwysiadu**

Ffigur 1. Amcangyfrif o fanteision cyflogaeth a gwerthiannau BBaChau Cymru o fabwysiadu a defnyddio band eang, yn ôl y math o fand eang



Mabwysiadu band eang sydd i'w gyfrif am **£166.8m** o gyfanswm gwerthiannau amcangyfrifedig busnesau bach a chanolig yng Nghymru

**48,600**

Mae BBaChau wedi gweld cynnydd parhaus mewn cyflogaeth o ganlyniad i fabwysiadu a defnyddio band eang cyflym iawn

Yn ôl dadansoddiad o ddata'r arolwg, gallai mabwysiadu a defnyddio technoleg band eang fod wedi gwella rhagolygon gwerthu 102,600 o BBaChau yng Nghymru, gyda 51,700 yn defnyddio band eang cyflym iawn. Yn seiliedig ar asesiad ceidwadol o 1% o gynnydd mewn gwerthiannau mewn BBaChau wedi'u heffeithio at ddibenion enghreifftiol, amcangyfrifir y gallai cyfanswm y gwerthiannau ar gyfer BBaChau y gallir eu priodoli i fabwysiadu a defnyddio band eang yng Nghymru fod yn £166.8m (roedd £91.5m yn gysylltiedig gyda defnyddwyr band eang cyflym iawn).

Mae buddiannau cyflogaeth hefyd yn amlwg, gyda'r dadansoddiad yn dangos y gallai 48,600 o BBaChau (yr oedd 24,500 ohonynt yn ddefnyddwyr band eang cyflym iawn) fod wedi gweld cynnydd parhaus mewn cyflogaeth o ganlyniad i fabwysiadu a defnyddio band eang. Yn seiliedig ar yr un asesiad ceidwadol o 1% o gynnydd mewn cyflogaeth mewn BBaChau yr effeithir arnynt, amcangyfrifir y gallai cyflogaeth y gallir ei phriodoli i fabwysiadu band eang fod wedi cynyddu o 1,637 (yr oedd 859 o gyfleoedd cyflogaeth newydd yn gysylltiedig â defnyddwyr band eang cyflym iawn).

Dengys y dadansoddiad fod y buddiannau cyflogaeth a gwerthiannau y gallir eu priodoli i fabwysiadu a defnyddio band eang (pob busnes gyda band eang, a mabwysiadwyr cyflym iawn) wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf (*gweler Ffigur 1*). Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu cyd-destun anodd BBaCh sy'n wynebu busnesau, a gostyngiad yn asesiad o fuddiannau BBaChau. Fodd bynnag, mae defnyddwyr band eang cyflym iawn yn parhau i nodi cynnydd uwch ar draws gwerthiannau, cyflogaeth a phroffidoldeb o fabwysiadu a defnyddio technolegau digidol, o'i gymharu â defnyddwyr band eang safonol. Efallai bod y gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu lefelu, neu ddirywiad yn effaith mabwysiadu band eang a defnydd busnesau dros amser, gan roi peth cefnogaeth i'r honiad nad yw trawsnewid digidol BBaCh o reidrydd yn gromlin linol, ar i fyny.





Er bod y pwyntiau data ansoddol yn cyfeirio'n gryf tuag at mwy o aeddfedrwydd digidol a gwelliannau yng nghynhyrchiant BBaChau sy'n deillio o fabwysiadu a defnyddio technolegau digidol, mae'r heriau sy'n ymwneud â mesur effeithiau economaidd ar economi Cymru yn parhau. I'r perwyl hwn, mae'r tîm ymchwil wedi parhau i ddefnyddio mesurau ceidwadol o ran asesu'r nifer o BBaChau sydd wedi cael eu heffeithio'n gadarnhaol o ran gwerthiannau a chyflogaeth.

Yn seiliedig ar y casgliadau o ddadansoddiad 2018 bydd y tîm ymchwil yng nghyfnodau nesaf y prosiect yn canolbwyntio ar gael ymatebion arolwg wedi'u hailadrodd gan y BBaChau a wnaeth gymryd rhan mewn Arolygon Aeddfedrwydd Digidol blaenorol, ond byddant hefyd yn mireinio dadansoddiad perfformiad a chynhyrchiant ar sectorau unigol. Mae'r tîm ymchwil hefyd yn edrych ar ffyrdd o gymharu perfformiad BBaChau sydd wedi ymwneud â gwasanaeth Cyflymu Cymru i Fusnesau, yn erbyn y rhai nad ydynt wedi ymwneud â'r gwasanaeth.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan  
Dylan Henderson, Calvin Jones,  
Max Munday, Laura Norris,  
Annette Roberts, Neil Roche ac Chen Xu.

Ffôn: 029 2087 6928

E-bost: [hendersond3@cardiff.ac.uk](mailto:hendersond3@cardiff.ac.uk)

Twitter: @CUWERU

Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Saesneg.

**Gellir gweld canlyniadau'r arolwg a gweithgareddau ymchwil eraill yma:**  
<http://www.cardiff.ac.uk/cy/superfast-broadband-project>



**@CUWERU**



Cardiff Business School  
Ysgol Busnes Caerdydd

Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn rhan annatod o'r rhaglen Ymelwad Busnes ar Fand Eang Cyflym lawn (SFBE), sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Lywodraeth Cymru.

Mae *Cyflymu Cymru i Fusnesau* yn wasanaeth cymorth busnes di-dâl sy'n helpu busnesau bach a chanolig eu maint cymwys yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol. Gan gynnig dosbarthiadau meistr am ddim, cyngor un i un ac adolygiad ar wefannau, gallai eu cefnogaeth helpu eich busnes i arbed arian, hybu gwerthiant ac elw a gwella cynhyrchiant.

Ffôn: 03000 6 03000

[www.businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy](http://www.businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy)

Mai 2019